


Y Lle Celf 2018, Y Senedd, Eisteddfod Genedlaethol Cymru
(llun: Betsan Jones)

# Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Cychwyn Arni

Rhagfyr 2018

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Croeso** | 02 |
| **Cyflwyniad** | 02 |
| Yma i Helpu | 03 |
| Fformatau Amgen a Hygyrch | 03 |
| Y Galw am Gyllid | 03 |
| **Yr awydd i wneud gwahaniaeth** | 03 |
| Beth rydyn ni'n chwilio amdano | 04 |
| **Pwy gaiff wneud cais** | 06 |
| Sefydliadau cymwys | 07 |
| Sefydliadau anghymwys | 09 |
| **Beth y gallwn ei ariannu** | 10 |
| **Beth y gallwch wneud cais amdano** | 12 |
| Gweithio'n Rhyngwladol | 13 |
| **Y Cyllid sydd ar Gael** | 14 |
| Grantiau Bach | 14 |
| Grantiau Mawr | 14 |
| Cyllid Partneriaeth | 14 |
| Costau hygyrchedd | 15 |
| Pa mor aml y cewch wneud cais | 16 |
| Pryd i gyflwyno'ch cais | 16 |
| Y camau nesaf | 17 |
| Manylion cyswllt | 17 |
| **Yn wahanol i'ch disgwyliadau?** | 18 |




Mae'r holl ddogfen hon wedi'i hyperddolennu. Wrth glicio ar y penawdau ar y tudalen cynnwys, eir â chi'n syth i'r adran berthnasol. Cliciwch i ddychwelyd i'r tudalen cynnwys.

# Cychwyn Arni

## Croeso

Ni yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a lles y genedl.

Un o'r dulliau rydyn ni'n eu defnyddio i geisio gwneud hyn yw dosbarthu cyllid, ac mae'r cynllun ar gyfer sefydliadau yn darparu cyllid ar gyfer prosiectau'r celfyddydau. Y Loteri Genedlaethol sy'n ariannu'r grantiau.

Mae'r cynllun hwn yn bwysig i ni am ei bod yn helpu sefydliadau i wireddu eu potensial artistig. Rydyn ni'n uchelgeisiol dros y celfyddydau yng Nghymru, ac rydyn ni am i'r cynllun gefnogi gwaith o safon. Rydyn ni am fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cynrychioli'r gorau o fyd y celfyddydau yng Nghymru.

Y blaenoriaethau a bennir yn *Ysbrydoli: Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau* sy'n arwain ein penderfyniadau ariannu. Mater o uchelgais greadigol a dychymyg yw hi; yr angen am i'r celfyddydau ymgysylltu a chysylltu pobl; a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod effaith y celfyddydau'n cael eu hadnewyddu a'u bod yn para.

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch os ydych chi'n ystyried cyflwyno cais ar gyfer *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau.* Bydd yn eich helpu chi gyda'r cam pwysig cyntaf: sef canfod a yw ein cyllid yn iawn i'ch sefydliad a'ch prosiect. Bydd yn dweud wrthych pa fathau o weithgarwch rydyn ni am eu cefnogi. Rydyn ni'n galw'r rhain yn "**feysydd**". Mae canllawiau penodol ar gael ar gyfer pob maes, a byddwn ni'n dweud wrthych sut i ddod o hyd i'r rhain yn nes ymlaen.

Trwy gydol y canllawiau hyn, rydyn ni'n sôn am "eich prosiect". Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd hwn i ddisgrifio'r gweithgaredd rydych chi'n cyflwyno'ch cais mewn perthynas ag ef. Rydym yn disgwyl i brosiect fod yn weithgaredd sy'n gallu cael ei ddisgrifio'n glir ac yn gryno. Rhaid i chi fod â phwrpas penodol, a rhaid i chi fod yn gallu esbonio'r canlyniadau (neu'r amcanion) rydych chi'n gobeithio eu cyflawni. **Rhaid i'ch prosiect fod yn gyfyngedig o ran amser (yn hytrach nag yn un parhaus), bod yn ychwanegol at (neu'r tu hwnt i) yr hyn rydych chi'n ei wneud fel rheol ac yn buddio'r cyhoedd yn hytrach nag eich budd preifat.** Ni allwn gefnogi rhai mathau o weithgareddau. Byddwn ni'n esbonio rhagor y rhain yn nes ymlaen.

### Yma i Helpu

Rydyn ni am i wneud cais am *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau* fod mor syml â phosibl. Mae digonedd o wybodaeth ar gael i'ch helpu chi i wneud cais, ond byddwn ni'n eich cyfeirio at hyn ar wahanol gamau yn y broses pan fo angen.

Mae Nodiadau Cymorth ar gael sy'n eich tywys chi drwy'r broses o lenwi'ch ffurflen gais. Dyna pam nad ydym wedi cynnwys gwybodaeth o'r math yma yn y fan hyn.

### Fformatau Amgen a Hygyrch

Weithiau, mae yna resymau penodol pam fod pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am grant neu gyrchu ein gwasanaethau. Os ydych chi'n dod ar draws unrhyw rwystrau gyda'n proses o wneud cais, neu'n rhagweld unrhyw rwystrau o'r fath, os oes arnoch angen cymorth i wneud cais neu i gyrchu ein gwasanaethau a'n gwybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Grantiau a Gwybodaeth.

### Y Galw am Gyllid

Mae nifer fawr o sefydliadau yn gwneud cais am gyllid trwy'r cynllyn hwn ac yn anffodus, mae llawer o geisiadau da'n dod i law nad oes modd i ni eu cefnogi am nad oes digon o arian ar gael. Rydyn ni'n gwneud ein penderfyniadau'n seiliedig ar y wybodaeth yr ydych chi'n ei darparu yn eich cais, yn ogystal â'n blaenoriaethau strategol, ein gwybodaeth am eich sefydliad a'ch gweithgareddau blaenorol. Ac rydyn ni'n defnyddio ein barn broffesiynol i wneud y dewisiadau anodd am y prosiectau lu sy'n ceisio cyllid. Rydyn ni'n ymdrechu i ariannu'r ceisiadau sy'n cyflwyno'r achos mwyaf darbwyllol i gael cyllid bob tro.

Cewch ddarllen rhagor am ein blaenoriaethau strategol yn yr adran nesaf.

Ni allwn gefnogi pob dim, felly wrth gynllunio'ch prosiect, dylech feddwl beth y byddech chi'n ei wneud pe bai'ch cynllun yn aflwyddiannus, neu pe baech chi'n cael llai o arian na'r disgwyl.

## Yr awydd i wneud gwahaniaeth

Rydyn ni am i'n buddsoddiad wneud gwahaniaeth. Felly rhaid i'r holl gyllid rydyn ni'n ei ddosbarthu ein helpu ni i gyflawni'n blaenoriaethau strategol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ein helpu ni i gefnogi prosiectau o'r **safon uchaf bosibl**, gan sicrhau bod ein cyllid yn cael yr **effaith ehangaf bosibl** a bod y **nifer fwyaf bosibl o bobl yn manteisio arno**.

Mae ffocws ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, o'r enw *Ysbrydoli* yn syml: **creu, estyn, cynnal**. Mae hynny am fod creu celfyddyd, sicrhau ei fod yn estyn allan at bobl a'i fod yn cael effaith barhaus yn hanfodol i'n gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.

Mae diddordeb gennym yn y ffordd rydych chi'n ymateb i hyn yn eich cais.

Mae ein strategaeth yn nodi nifer o sialensiau creadigol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sut rydyn ni'n annog rhagor o bobl yng Nghymru i ddewis ymgysylltu â'r celfyddydau
- sut rydyn ni'n defnyddio'r technolegau digidol mewn ffordd arloesol a dychmygus
- sut rydyn ni'n datblygu creadigrwydd plant a phobl ifanc
- sut rydyn ni'n cysylltu celfyddydau a diwylliant Cymru â llwyfannau rhyngwladol, a
- sut rydyn ni'n plannu egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth galon ein harferion creadigol a busnes.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein Strategaeth *Ysbrydoli* trwy glicio yma.

**Beth rydyn ni'n chwilio amdano**

Ein dull newydd o gynllunio'n strategol yw *Ysbrydoli*. Nid yw'n gyfarwyddol, ond yn hytrach, rydyn ni am iddo'ch helpu chi i feddwl am y darlun ehangach o ran y materion sy'n effeithio ar y celfyddydau yng Nghymru a sut y gall eich prosiect wneud gwahaniaeth yn hyn o beth.

Gallai dweud wrthym ni sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at ein sialensiau creadigol ychwanegu gwerth at eich cynnig, a gallai wahanu eich cais oddi wrth y gweddill. Mae hyn am fod i ba raddau rydych chi'n mynd i'r afael â'n sialensiau creadigol yn un o'r ffactorau sy'n effeithio ar ein penderfyniad.

Mewn geiriau eraill, mae prosiect sy'n mynd i'r afael ag o leiaf un o'n sialensiau mewn ffordd briodol ac effeithiol yn fwy tebygol o gael ei ariannu, neu ei flaenoriaethu, dros brosiect nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw un o'r sialensiau, neu brosiect sy'n gwneud hynny mewn dull llai argyhoeddiadol.

Mae yna rai egwyddorion sydd mor hanfodol i ni ein bod ni'n disgwyl i bob cais am *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau* eu cymryd i ystyriaeth:

- Gwlad **ddwyieithog** yw Cymru ac rydyn ni'n disgwyl i bobl allu ymgysylltu â'r celfyddydau yn iaith eu dewis, boed fel cynulleidfa, fel cyfranogwyr neu fel artistiaid. Rydyn ni'n disgwyl i chi gyfleu hyn mewn ffordd briodol yn eich cais.
- Rydyn ni am i'r celfyddydau yng Nghymru fod yn fwy **cynhwysol** ac iddynt **ymgysylltu** pobl, felly rydyn ni am i'r sefydliadau rydyn ni'n eu hariannu blannu **egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth** wrth galon pob rhan o'u gwaith. Dywedwch wrthym sut

y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r rhwystrau i ymgysylltu ac **estyn allan at y gynulleidfa ehangaf bosibl**.

- Rydyn ni am fuddsoddi mewn gwaith sy'n **cyffroi ac yn ysbrydoli** pobl. Byddwn ni am gefnogi'r prosiectau hynny sy'n dangos y **gorau o fyd y celfyddydau** - y nodweddion hynny a fydd yn gosod eich gwaith ar wahân fel gwaith unigryw, perthnasol, darbwyllol a pharhaus. Gwnewch yn siŵr bod eich cais yn dangos sut mae eich prosiect yn sefyll ar wahân i'r lleill.

## Pwy gaiff wneud cais

Dim ond sefydliadau gaiff gyflwyno cais o dan y cynllun.

Cyn gofyn am gais, **rhaid i chi sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais.**

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais, rhaid i'ch sefydliad:

- Fod wedi ei leoli yng Nghymru, mewn rhan arall o'r DU neu mewn gwlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd.

- Bod â **dogfen lywodraethu ysgrifenedig** megis cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaethol neu erthyglau cymdeithas (<u>heblaw eich bod yn gorff statudol megis cyngor tref, awdurdod lleol, corff iechyd neu brifysgol</u>). Rhaid i'ch dogfen lywodraethol:
    - dangos bod darparu **gweithgarwch celfyddydol** yn un o'ch amcanion, a
    - meddu ar **gymal diddymu** sy'n disgrifio'r hyn a ddigwyddai i asedau eich sefydliad sy'n weddill (ar ôl talu pob dyled ac ymrwymedigaeth) pe paid y sefydliad â bodoli. *Noder: bydd y sefydliad yn anghymwys i ymgeisio am arian os caniatâ ei gymal diddymu drosglwyddo ei asedau i gwmni sy'n gwneud elw neu i'w aelodau ei hun.*

- Bod â **hanes o lwyddo** o ran darparu gweithgarwch celfyddydol i gynulleidfaoedd neu ymgyfranogwyr

- Bod â **Polisi Cyfle Cyfartal** a adolygwyd gan eich corff llywodraethu yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol. Bydd yn rhaid i'r polisi hwn arddangos bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu yn eich rhaglennu, eich cynllunio a'ch gwaith beunyddiol.

- Bod â **cyfrif banc yn enw eich sefydliad** sydd angen gyda dau berson a all awdurdodi trafodion (fel arfer, cyfeirir at y rhain yn 'llofnodwyr ar y cyfrif'). Pan ddywedwn 'drafodion', golygwn dynnu arian o gyfrif y sefydliad, trosglwyddo arian neu dalu arian i mewn. Mae hyn yn cynnwys llofnodi sieciau a defnyddio cyfrif banc drwy'r we.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â gweithio gyda phlant, pobl ifainc neu oedolion hyglwyf bydd yn rhaid bod gennych hefyd y canlynol:

- Polisi Diogelu/Amddiffyn Plant **a adolygwyd hefyd gan eich corff llywodraethol yn y tair blynedd diwethaf ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol.** Bydd yn rhaid i'r polisi hwn ddangos bod materion diogelu'n cael eu hadlewyrchu yn eich cynllunio a'ch gwaith beunyddiol.

Ni chewch ymgeisio am arian os ydych yn diffygdalu unrhyw gytundeb ariannol â Chyngor Celfyddydau Cymru.

Os ydych yn ansicr os yw eich sefydliad yn gymwys, cysylltwch a'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth.

**Nodyn am lywodraethu**

Cymerwn y cyfrifoldeb am ddosbarthu arian y cyhoedd o ddifrif a dyma pam mae'r ffordd y rhedwch eich sefydliad yn bwysig inni. Mae arnom angen bod yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n gywir ac y gall reoli grant yn briodol. Ni roddwn grant os gwelwn berygl na reolir arian y cyhoedd yn iawn.

Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yw sicrhau y diwellwch ein gofynion cymhwysedd.

**Os nad ydych wedi cyflwyno dogfen llywodraethu eich sefydliad inni yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, neu os oes fersiwn newydd o'r ddogfen, rhaid ichi ailgyflwyno'r ddogfen lywodraethu gyda'ch cais**. Bydd yn gymorth inni wirio a ydych yn gymwys i wneud cais i *Grantiau celfyddydol ar gyfer sefydliadau* ac o bosibl yn ystod ein hasesiad.

**Rhaid ichi hefyd gyflwyno gyda'ch cais dystiolaeth bod gennych gyfrif banc** yn enw eich sefydliad sydd ag o leiaf ddau lofnodwr a all awdurdodi trafodion.

Os llwydda eich cais, gwiriwn y wybodaeth hon drwy ofyn ichi ddarparu manylion pellach am eich cyfrif. Ni allwn ryddhau unrhyw daliadau nes inni gael a gwirio'r wybodaeth hon.

Cewch wybod rhagor am gyflwyno prawf o'ch cyfrif banc yn y ein Taflen Wybodaeth: Uwchlwytho tystiolaeth o'ch cyfrif banc.

## Gweithio mewn partneriaeth

Mae yna rhai enghreifftiau lle mae syniadau prosiect gwych sy'n atgyfnerthu'n dda â'n blaenoriaethau yn dod o sefydliadau nad oes ganddynt 'celfyddydau' yn eu dogfen lywodraethol. Teimlwn y gallai'r sefydliadau hyn chwarae rhan hanfodol wrth ymestyn cyrhaeddiad y celfyddydau i gymunedau a allai elwa o gynyddu'r ddarpariaeth gelfyddydol ac felly, hoffem archwilio dull arall o alluogi'r sefydliadau hyn i arwain ar geisiadau am brosiectau ariannu.

Fel Cyngor Celfyddydau Cymru, rydym am sicrhau bod y prosiectau rydym yn ariannu o ansawdd artistig uchel, felly rydym wedi penderfynu ystyried ceisiadau sy'n cael eu harwain gan sefydliad (fel elusen gofrestredig neu grŵp gwirfoddol) heb 'celfyddydau' yn ei dogfen lywodraethol os yw'n ymgeisio i weithio mewn partneriaeth â sefydliad celfyddydol cymwys.

Byddem yn disgwyl i'r sefydliad celfyddydol gallu dangos ei bod yn cyd-fynd â'n meini prawf cymhwyster cyhoeddedig cyfredol.

- Bydd angen i sefydliadau gael cytundeb gan Gyngor Celfyddydau Cymru fod y dull yma yn briodol. I ddechrau, gellir trafod eich syniadau gyda Swyddog Datblygu neu Swyddog Grantiau a Gwybodaeth

- Yn ystod y cyfnod ymholi, hoffem weld tystiolaeth o'r bartneriaeth sy'n bwriadu gwneud cais, er enghraifft trwy e-bost neu lythyr o gefnogaeth. Fe fyddem hefyd yn annog cyfarfodydd i drafod y prosiect gydag aelodau o bob sefydliad. Hoffem weld dogfen lywodraethol pob sefydliad hefyd

- Byddwn yn gallu ystyried cefnogi hyd at uchafswm o 50% o gostau prosiect cymwys, felly bydd angen i chi sicrhau bod gennych incwm arall i gefnogi'r prosiect

- Bydd angen i sefydliadau gwneud cais am Grant Bach cyn bod yn gymwys i wneud cais am grant Mawr

## Sefydliadau cymwys

Bydd yn rhaid i rai sefydliadau ystyried gofynion ychwanegol. Disgrifiwn isod y mathau o sefydliadau sy'n gymwys ac unrhyw ofynion penodol sy'n berthnasol iddynt.

| | |
|---|---|
| Cwmnïau wedi eu cyfyngu drwy warant neu gwmnïau buddiant cymunedol (CBC) | |
| Elusennau cofrestredig neu sefydliadau corfforedig elusennol (SCE) | |
| Grwpiau, clybiau neu gymdeithasau cymunedol dielw â chyfansoddiad | |
| Awdurdodau lleol | Gall awdurdodau lleol wneud cais am hyd at 60% o gostau cymwys prosiect. |
| Ymddiriedolaethau Diwylliant a Hamdden | Gall Ymddiriedolaethau Diwylliant a Hamdden sy'n darparu gwasanaethau yn lle'r awdurdodau lleol ymgeisio am hyd at 60% o gostau cymwys y prosiect |
| Consortia awdurdodau lleol | Gall consortia awdurdodau lleol wneud cais am hyd at 75% o gostau cymwys prosiect. |
| Colegau a phrifysgolion | Rhaid i’r gweithgaredd arfaethedig fod yn amlwg o fudd i’r gymuned ehangach neu i artistiaid. |

| | |
|---|---|
| Lleoliadau'r celfyddydau (er enghraifft, theatrau, canolfannau'r celfyddydau neu<br><br>orielau), sydd dan reolaeth awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg uwch | Byddwn ni'n trin y lleoliadau celfyddydol hyn fel sefydliadau ar wahân, a gallant wneud cais am hyd at 75% o gostau cymwys prosiect.<br><br>Mae hyn yn golygu y gallai adran arall o'r awdurdod lleol, er enghraifft, gyflwyno cais ar gyfer prosiect cymwys hefyd. |
| Portffolio Celfyddydol Cymru (PCC) | Mae PCC yn gymwys i wneud cais os ydynt wedi cael cymeradwyaeth ymlaen llaw. Rhaid iddynt drafod unrhyw gais arfaethedig gyda'u Swyddog Arwain yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â thelerau'r eu Cytundeb Cyllid Refeniw. |
| Bandiau sy'n ymgeisio i'r maes Datblygu Diwydiant Cerdd | Bydd yn rhaid i fandiau bod â chytundeb ysgrifenedig ar waith. Ystyriwn y fath gytundeb yn ddogfen lywodraethol y band. Mae gwybodaeth bellach am yr hyn y disgwyliwn i gytundeb partneriaeth gynnwys yn nogfen a Nodiadau Cymorth Datblygu'r Diwydiant Cerdd. |
| Sefydliadau sy'n rhannu elw ymhlith eu haelodau neu eu cyfranddalwyr, megis partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig | Mae'r math hwn o sefydliadau dim ond yn gymwys i ymgeisio os gallant ddangos yn glir y bydd eu prosiect celfyddydol hunangynhwysol o fudd i'r cyhoedd ac nid i'w buddiannau preifat.<br><br>Os yw'r cais yn llwyddiannus, rhaid i'r sefydliad agor cyfrif banc ar wahân a defnyddio hwnnw'n unig at ddibenion y prosiect a ariannwn. Rhaid i'r cyfrif fod yn enw'r sefydliad a rhaid cael o leiaf ddau berson i awdurdodi trafodion. |

Sefydliadau anghymwys

Ymhlith y sefydliadau na allant ymgeisio am arian drwy'r cynllun hwn, mae:

- Adrannau Llywodraeth y DU
- Adrannau Llywodraeth Cymru
- Adrannau'r BBC
- Ysgolion
- Sefydliadau o'r tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd

Os ydych chi'n **unig fasnachwr** neu'n **unigolyn sy'n masnachu fel busnes** nid ydych yn gymwys i wneud cais fel sefydliad. Darllenwch ein *Grantiau'r Celfyddydau i Unigolion Creadigol Proffesiynol*.

**Nodyn am Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol**

Ym mis Tachwedd 2015 cyhoeddasom i 131 o ysgolion ledled Cymru gael eu dewis i fod yn rhan o Gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, un o'r elfennau allweddol o Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru. Nod y cynllun yw hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio gyda rhaglenni dysgu creadigol sy'n arloesol ac wedi'u teilwra sydd â'r nod o wella ansawdd addysgu a dysgu.

Daw arian Ysgolion Creadigol Arweiniol o gyllideb yr £20 miliwn a ddyrannwyd i gefnogi gweithredu Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau – cynllun gweithredu i Gymru 2015-20. Dyrannwyd cyfanswm o £10 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru i baru'r £10 miliwn o arian y Loteri oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru.

**Nodwch y bydd holl weithgaredd ysgolion yn awr yn cael eu cefnogi drwy'r tair rhaglen o weithgarwch o fewn Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau** - Ysgolion Creadigol Arweiniol, Rhwydweithiau'r Celfyddydau ac Addysg, Profi'r Celfyddydau.

Os hoffech ragor o wybodaeth am *Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru*, cliciwch yma neu ebostiwch Dysgu.Creadigol@celf.cymru.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Beth y gallwn ei ariannu

Er mwyn gwneud cais am gyllid, rhaid i chi ddangos i ni fod eich prosiect yn diwallu rhai gofynion penodol. Disgrifir y rhain isod.

| | |
|---|---|
| Rhaid i'ch prosiect gael ei gyflawni yng Nghymru yn bennaf | • Gallwn ystyried ariannu cyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu y tu allan i Gymru os nad yw'r un cyfleoedd ar gael yma<br>• Gallwn ystyied ariannu hyd at 15% o gyfanswm cost prosiect er mwyn hwyluso teithio y tu allan i Gymru<br>• Os cyflwynir rhesymeg artistig, ariannol neu fusnes clir, gallwn ystyried ariannu rhywfaint o weithgarwch rhyngwladol yn rhan o brosiect ehangach lle byddai hynny o fantais i Gymru |
| Rhaid i'ch prosiect fod yn ychwanegol at eich rhaglen weithgarwch arferol | • Mae hyn yn golygu ei bod yn mynd y tu hwnt i'r hyn rydych chi'n ei wneud fel rheol |
| Rhaid bod cyfyngiad o ran amser ar eich prosiect | • Mae hyn yn golygu ei bod yn weithgaredd cynlluniedig â dyddiad dechrau a gorffen penodol |
| Rhaid i'ch project fod â dyddiad dechrau sy'n eich galluogi i gynllunio'ch prosiect yn drylwyr | • Mae hyn yn golygu eich bod chi wedi ymgorffori digon o amser cynllunio i baratoi'n drylwyr ar gyfer eich prosiect os cewch chi'r cyllid |
| Rhaid i chi fod â chyllid partneriaeth ar gyfer eich prosiect (a elwir hefyd yn gyllid cyfatebol) | • Mae hyn yn golygu'r cyllid arall fydd ei hangen arnoch er mwyn i chi gyflawni'ch prosiect. Disgwyliwn i o leiaf 25% o gost gymwys eich prosiect ddod o ffynhonnell na ddaw oddi wrthym ni (gall mwyafswm o 10% o'r hyn fod mewn nwyddau) |

Ni allwn ariannu:

- gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r celfyddydau
- gwobrau, nwyddau, arlwyaeth, rhoddion, tân gwyllt, digwyddiadau cystadleuol a digwyddiadau sy'n unswydd at ddibenion hyrwyddo
- costau ôl-weithredol. Trwy hyn, rydyn ni'n golygu bod y gweithgaredd eisoes wedi digwydd, neu unrhyw gostau rydych chi wedi eu talu neu wedi cytuno i'w talu (trwy lofnodi contract neu osod archeb er enghraifft), cyn i ni wneud penderfyniad ar eich cais a chyn i chi dderbyn ein cynnig grant. Byddwch yn cyflawni unrhyw weithgareddau i hysbysebu neu hyrwyddo eich prosiect cyn y pwynt yma'n llwyr ar eich risg eich hun. **Ni allwn ariannu prosiectau lle mae tocynnau eisoes ar werth.**

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Beth y gallwch wneud cais amdano

Rydyn ni'n galw'r mathau o weithgarwch rydyn ni am eu cynorthwyo yn "feysydd". Rydyn ni'n glir iawn ynghylch beth rydyn ni am ei gyflawni trwy bob maes, a sut maen nhw'n ein helpu ni i gyflawni ein blaenoriaethau strategol:

| Maes | Pwrpas |
|---|---|
| Datblygu Cynulleidfaoedd | Cynorthwyo prosiectau i ddatblygu cynulleidfaoedd mewn ffordd glir, penodol a mesuradwy |
| Datblygu Busnes a Sefydliadol | Helpu sefydliadau'r celfyddydau i fod yn fwy gwydn ac i'w cynnal eu hunain |
| Gwyliau | Cynorthwyo dathliadau neilltuol o safon uchel sy'n dathlu'r celfyddydau gorau o Gymru |
| Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth | Cynorthwyo prosiectau sy'n datblygu sylfeini diwydiant cerddoriaeth llewyrchus yng Nghymru, ac sy'n helpu pobl â dawn gerddorol yng Nghymru i feithrin gyrfaoedd cynaliadwy |
| Cynhyrchu | Cynorthwyo'r broses o greu gwaith artistig o safon uchel i'w gyflwyno i gynulleidfaoedd |
| Cefnogi Rhaglenni Canolfannau ac Orielau | Cynorthwyo prosiectau sy'n curadu ac yn cyflwyno gwaith artistig neilltuol a chyffrous o safon uchel sy'n cyfoethogi rhaglen canolfan neu oriel |
| Ymchwil a Datblygu | Cynorthwyo gwaith arbrofi er mwyn galluogi i syniadau newydd, cydweithredu newydd a ffyrdd newydd o weithio gael eu harchwilio a'u datblygu |
| Cymryd Rhan | Darparu mwy o ddulliau i bobl gymryd rhan mewn gweithgarwch celfyddydol o safon uchel |
| Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol | Datblygu sgiliau, medrau a galluoedd pobl sy'n gweithio ym myd y celfyddydau yng Nghymru |

Mae gennym nodiadau canllaw ar wahân ar gyfer pob maes ar ein gwefan. Mae'r rhain yn cynnig gwybodaeth bellach am y mathau o brosiectau rydyn ni am eu cynorthwyo a sut i fynd ati i wneud cais.

## Gweithio'n Rhyngwladol

Rydyn ni'n cefnogi gwaith rhyngwladol mewn dwy ffordd: trwy ddod â gwaith o dramor i Gymru, a thrwy ddarparu cyfle i sefydliadau'r celfyddydau ac unigolion creadigol proffesiynol weithio ar lwyfan ryngwladol (hynny yw, y tu hwnt i'r DU).

Mae hi'n bwysig ein bod ni'n cysylltu diwylliant Cymru â'r byd mewn ffyrdd a fydd yn effeithio mewn ffordd weladwy ac a fydd â gwerth parhaus. Am hynny, gallwn gynorthwyo gweithgarwch rhyngwladol sy'n digwydd yng Nghymru trwy *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau*. Gall y gweithgarwch gynnwys rhaglennu gwaith gan artistiaid rhyngwladol o safon, cydweithredu a  meithrin partneriaethau artistig, cyfnewidfeydd preswyl, rhannu arferion da a datblygu sgiliau.

Mae ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol (CCRh) yn cefnogi gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni y tu hwnt i'r DU yn benodol. Celfyddydau Rhyngwladol Cymru (CRhC), sef cangen ryngwladol Cyngor y Celfyddydau, sy'n gweinyddu'r gronfa, a chewch ddarllen rhagor amdani yma.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys

## Y Cyllid sydd ar Gael

Mae dwy lefel o gyllid ar gael: grantiau bach a grantiau mawr.

### Grantiau Bach

Mae ein grantiau bach yn darparu grantiau gwerth rhwng £250 a £5,000.

**Os ydych yn llunio eich cais cyntaf inni, bydd yn rhaid ichi ymgeisio ar y lefel hon.** Felly gallwn gynyddu ein gwybodaeth o'ch gwaith a gweld eich bod wedi sefydlu'n iawn a gallu rheoli arian y cyhoedd yn effeithiol. Yn yr un ffordd mae ein grantiau bychain hefyd am gefnogi a datblygu sefydliadau i sicrhau eu bod yn y lle gorau i ddarparu gweithgarwch celfyddydol o safon.

### Grantiau Mawr

Mae ein grantiau mawr yn darparu grantiau gwerth rhwng £5,001 a £30,000, ac yn cynorthwyo prosiectau celfyddydol graddfa fwy. Neu gallant gyfrannu at gostau prosiect mawr iawn a gynorthwyir gan nifer o bartneriaid ariannu.

### Cyllid Partneriaeth

Y mwyafswm allwn ni ariannu yw 75% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Fodd bynnag, rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n gallu bod yn anodd codi arian ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu. Felly, ar gyfer ceisiadau yn y maes hwn, gallwch gyflwyno cais am hyd at 80% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Os taw prif nod eich prosiect yw gweithio gyda'r celfyddydau, a thrwyddynt, i hyrwyddo neu wireddu canlyniadau iechyd, addysgol, cymdeithasol neu ganlyniadau cysylltiedig eraill, gallwch wneud cais am hyd at 50% o gyfanswm costau cymwys eich prosiect.

Cofiwch na allwn ystyried talu symiau sy'n uwch na hyn. Mewn llawer o achosion, mae'n debygol y bydd ein cyfraniad yn sylweddol lai.

Mae hi'n gyfnod anodd yn ariannol. Byddem yn annog pob sefydliad felly i ddatblygu modelau busnes cadarn a gwydn sy'n gallu goroesi â llai o ddibyniaeth ar gyllid cyhoeddus. Byddwn ni'n disgwyl felly i chi fwyafu'r cyfraniadau at eich prosiect o'ch cronfeydd eich hunain a thrwy gyllid gan bartneriaid ariannu eraill.

Rydyn ni am weld sut byddwch chi'n defnyddio ein cyfraniad i ddiogelu cyllid o ffynonellau eraill. Bydd hyn yn dangos eich ymroddiad i'ch prosiect. Bydd yn dangos hefyd bod budd-ddeiliaid eraill yn cytuno bod eich prosiect yn bodloni angen ac y bydd yn cynnig budd i'r cyhoedd.

Yn achlysurol iawn, byddwn ni'n gwneud eithriadau i'r rheolau hyn fel y gallwn dargedu ein buddsoddiad yn benodol iawn ar brosiect a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein hamcanion strategol:

- Gallwn ystyried cais am hyd at £50,000 os bydd eich prosiect yn genedlaethol neu'n cael ei gyflawni mewn mwy nag un o'n rhanbarthau neu lle fydd y prosiect yn cynnig gweithgaredd ac/neu yn targedu grwpiau o bobl yr ydym yn cysidro i fod yn flaenoriaeth.

- Gallwn ystyried cais am hyd at £100,000 o dan amgylchiadau neilltuol os ydych chi'n gwneud cais i gynnal gŵyl neu i gynhyrchu gwaith a mynd ag ef ar daith genedlaethol

- Gallwn ystyried cais am hyd at 90% o gyfanswm costau cymwys y prosiect os bydd y prosiect yn cyflawni gweithgarwch a/neu'n ymwneud â grwpiau targed o bobl sydd o flaenoriaeth arbennig o uchel yn ein barn ni.

**Os ydych chi'n meddwl y dylid gwneud eithriad ar gyfer eich cais, rhaid i chi drafod hyn a ni a chael ein cydsyniad cyn cyflwyno'ch cais. Os na fyddwch chi'n gwneud hyn, ni fydd modd i ni gefnogi'ch cais**.

**Costau hygyrchedd**

Os yw eich cais yn seiliedig ar anabledd (hynny yw, bod mwy na 51% o'ch bwrdd rheoli a'ch staff uwch yn bobl anabl), cewch wneud cais am gyllid tuag at y costau hygyrchedd y byddwch chi'n eu tynnu wrth gyflawni'ch prosiect. Caiff y costau hyn eu hystyried yn ogystal â chostau'r prosiect artistig, a byddwn ni'n ystyried caniatáu i'ch cais fynd y tu hwnt i'r uchafswm.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Rydyn ni am sicrhau bod ein cyllid ar gael mor eang â phosibl, felly mae yna gyfyngiad ar sawl gwaith y gallwch gael cyllid trwy Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau.

***Gall Sefydliadau ddal un grant*** **o'r cynllun hwn mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.** Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis. Yr unig bryd y byddwn yn llacio'r rheol yma yw os ydych yn ceisio am arian ar gyfer gwaith datblygu, lle ystyriwn **un** grant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y pedwar maes canlynol:

- Datblygu Cynulleidfaoedd
- Datblygu Busnes a Sefydliadol
- Ymchwil a Datblygu
- Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Er enghraifft, gall eich sefydliad dderbyn grant o'r meysydd Cynhyrchu ac Ymchwil a Datblygu mewn un flwyddyn, ond ddim am ddau brosiect Ymchwil a Datblygu.

Nid yw'r ffaith y cewch gyflwyno ail gais mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn gwarantu llwyddiant y cais.

## Pryd i gyflwyno'ch cais

### Grantiau Bach

Nid oes dyddiad cau ar gyfer grantiau bach, ond mae angen caniatáu **o leiaf chwech wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a dyddiad dechrau arfaethedig eich prosiect. Mae hyn er mwyn ein galluogi ni i asesu eich cais yn drylwyr.

Caiff eich cais ei ystyried yn y cyfarfod penderfynu nesaf sydd ar gael. Os yw'r cais yn llwyddiannus, cewch gychwyn eich prosiect fel rheol ar ôl i ni anfon llythyr cynnig grant atoch a phan fyddwch wedi llofnodi a dychwelyd ffurflen dderbyn y grant.

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

**Fel arfer, mae pedwar dyddiad cau y flwyddyn am geisiadau am grantiau mawr.** Rydyn ni'n cyhoeddi'r dyddiadau hyn ar ein gwefan ac yn y dogfennau maes, a byddwn yn derbyn ceisiadau hyd at 5.00pm ar y dyddiad cau. Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **naw wythnos gwaith** rhwng y dyddiad cau a dyddiad cychwyn arfaethedig eich prosiect.

Caiff eich cais ei ystyried yn y cyfarfod penderfynu nesaf sydd ar gael. Os yw'r cais yn llwyddiannus, cewch gychwyn eich prosiect fel rheol ar ôl i ni anfon llythyr cynnig grant atoch a phan fyddwch wedi llofnodi a dychwelyd y ffurflen i dderbyn y grant

## Y camau nesaf

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda Swyddog Datblygu cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Yn eich e-bost dylech gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- eich enw ac enw'r sefydliad a fydd yn gwneud cais (os yw'n briodol)
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- y maes ariannu rydych yn meddwl ceisio ato
- faint o arian sydd angen arnoch chi?

- lleoliad y prosiect

Hoffem eich annog i ddarllen yn drylwyr y wybodaeth am y maes y mae eich prosiect yn gweddu iddo, cyn cysylltu â ni.

Os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys, os oes cwestiwn technegol gennych am y broses ymgeisio neu os ydych am gael gwybodaeth am ein gwahanol gynlluniau ariannu, cysylltwch â grantiau@celf.cymru

**Manylion cyswllt**

Ffôn: 0845 8734 900 (Rhaid talu cyfraddau lleol a gall cyfraddau ffôn symudol amrywio)
029 2044 1300

9.00 - 5.00 Llun - Iau
9.00 - 4.30 Gwener

Twitter: @Celf_Cymru

Gwefan: celf.cymru

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i gysylltu â ni yma: cysylltwch â ni

## Yn wahanol i'ch disgwyliadau?

Hwyrach nad oeddech chi'n gwybod bod *Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau* yn cael eu hariannu gan y Loteri Genedlaethol. Os na allwch dderbyn cyllid y loteri am resymau crefyddol, dylech gynnwys llythyr gyda'ch cais i esbonio pam. Os yw eich cais yn llwyddiannus, byddwn ni'n ceisio ariannu eich prosiect o gyllid o ffynonellau eraill. Dylid nodi bod y cyllid hwn yn gyfyngedig iawn, felly ni allwn warantu y bydd modd gwneud hyn.

Yn ôl i'r tudalen Cynnwys